



# 6 Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng

Ar gyfer 2021 i 2026



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gofal cywir, lle cywir, y tro cyntaf: Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng - Llawlyfr polisi 2021–2026'.

Mai 2022

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch:

**E-bost:**

[SixGoals.UrgentAndEmergencyCare@gov.wales](mailto:SixGoals.UrgentAndEmergencyCare@gov.wales)



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

Ynglŷn â'r canllaw hwn.....	4
Nod 1. Cefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o fod angen gofal brys neu ofal argyfwng.....	6
Nod 2. Mae pobl yn gwybod lle y gallant gael yr help maen nhw ei angen.....	8
Nod 3. Opsiynau eraill yn yr ysbyty.....	10
Nod 4. Ymateb yn gyflym mewn argyfwng iechyd.....	13
Nod 5. Mae pobl yn cael y gofal gorau yn yr ysbyty a phan fyddant yn gadael.....	16
Nod 6. Mynd gartref pan fo'n bosibl.....	19
Mwy o wybodaeth.....	21

# Ynglŷn â'r canllaw hwn



Bydd y canllaw hwn yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y gofal gorau ar gyfer:

- eu hiechyd corfforol
- a'u hiechyd meddwl



Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â **gofal brys** a **gofal argyfwng** yn unig.



Mae **gofal brys** yn golygu bod rhywun angen help yn ystod yr 8 awr nesaf.



Mae **gofal argyfwng** yn golygu bod rhywun angen help ar unwaith.



Mae'r canllaw hwn ar gyfer pob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal a phobl sy'n derbyn y gwasanaethau hyn.



Rydym ni wedi gwranddo ar farn cleifion a staff i'n helpu i wneud y canllaw hwn.



Rydym ni wedi gwneud **6 nod** i'n helpu i wella gofal brys a gofal argyfwng.



Mae gan bob nod safonau. Maen nhw'n esbonio'r hyn y dylai pobl ei ddisgwyl pan fyddant yn cael gofal brys neu ofal argyfwng.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael:

- y gofal cywir
- yn y lle cywir
- y tro cyntaf.



# Nod 1. Cefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o fod angen gofal brys neu ofal argyfwng



Mae rhoi pobl mewn mwy o berygl o fod angen **gofal brys** neu **ofal argyfwng**.



Er enghraifft, oherwydd bod ganddyn nhw bryder iechyd corfforol neu feddyliol neu angen cymdeithasol. Neu oherwydd eu bod yn wan.



Dylid cynllunio mwy a rhoi mwy o gymorth i'r bobl hyn i helpu i sicrhau eu bod yn cael y gofal maen nhw ei angen i'w helpu i'w hatal rhag gorfod mynd i'r ysbyty.



Dylai gwasanaethau weithio gyda'i gilydd i helpu pobl sydd mewn mwy o berygl i:

- Aros yn iach yn hirach
- Cael cymorth neu driniaeth yn gynnar cyn i'w hanghenion ddod yn rhai brys.

# Rhai enghreifftiau o'r hyn y gellir ei wneud i wella gofal i bobl sydd mewn perygl



Gwella'r gwres yng nghartrefi pobl.



Dylai pobl sydd â phryderon iechyd hirdymor allu cael adolygiadau rheolaidd o'u hanghenion iechyd.



Dylai pobl â phryderon iechyd gael eu gwirio gan y timau cywir ar gyfer eu hanghenion.



Dylai pobl â phryderon iechyd meddwl gael mwy o gefnogaeth yn y gymuned.



Dylai pobl sy'n fwy tebygol o gwmpo gael mwy o gymorth i wneud eu cartrefi'n ddiogel.



## Nod 2. Mae pobl yn gwybod lle y gallant gael yr help maen nhw ei angen

### Rhai enghreifftiau o'r hyn y gellir ei wneud i gyflawni'r nod hwn



Pan fydd pobl angen neu eisiau cymorth yn gyflym, pan nad yw eu hanghenion yn bygwth bywyd, gallant ffonio GIG 111 Cymru neu ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn [111.wales.nhs.uk](https://www.111.wales.nhs.uk).

Gall GIG 111 Cymru roi'r canlynol i bobl:



- help 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos
- y cyngor cywir, pan fyddan nhw ei angen
- gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael iddyn nhw
- cymorth sy'n agos i'w cartref.



Dylai pobl gymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal.





A gwybod y bydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod nhw'n cael y gofal gorau.



Dylid cefnogi pobl sydd ag angen brys i gael yr help maen nhw ei angen drwy **GIG 111 Cymru**. Er enghraifft, ar gyfer apwyntiad y diwrnod hwnnw. Neu am gyngor pellach.



Dylai fod gan staff iechyd a gofal wybodaeth am y gwasanaethau mae pobl eu hangen. A rhoi'r wybodaeth orau iddyn nhw.

## Sut bydd y pethau hyn yn helpu?




Rydym ni'n gobeithio y bydd angen i bobl fynd i'r ysbyty llai drwy wneud y pethau hyn. Ac aros am lai o amser am driniaeth.



Mae gwasanaeth ffôn ac ar-lein GIG 111 Cymru ([111.wales.nhs.uk](https://111.wales.nhs.uk)) ar gael i bawb yng Nghymru 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.



## Nod 3. Opsiynau eraill yn yr ysbyty



Rydym ni am i bobl gael y gofal maen nhw ei angen mor agos i'w cartrefi â phosibl.



Dim ond pan fydd wir ei angen y dylai pobl orfod aros yn yr ysbyty.

### **Rhai enghreifftiau o'r hyn y gellir ei wneud i gyflawni'r nod hwn**



Dylai staff iechyd cymunedol gael y wybodaeth maen nhw ei hangen, er mwyn helpu i wneud penderfyniadau am y ffordd orau o gefnogi pobl.



Pan fydd angen i bobl fynd i'r ysbyty neu pan fyddan nhw angen mwy o ofal, mae'r wybodaeth maen nhw ei hangen yn cael ei rhoi iddyn nhw. Ac maen nhw'n dechrau cael gofal o fewn 2 awr.



Bydd pobl sy'n hŷn neu'n wan yn cael eu gwirio'n gyflym yn ogystal â phobl sy'n agos at ddiwedd eu hoes.



Bydd angen i lai o bobl aros yn yr ysbyty a gallant ddychwelyd adref ar yr un diwrnod.



Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan dîm o staff iechyd a gofal cymdeithasol. A byddant yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r gofal gorau.



Bydd cefnogaeth i bobl sy'n cael argyfwng iechyd meddwl y tu allan i oriau gwaith arferol.

## Sut bydd y pethau hyn yn helpu?



Mae'n well i bobl osgoi mynd i'r ysbyty oni bai ei fod yn bwysig ac yn angenrheidiol.



Bydd hyn yn helpu i leihau'r pwysau ar ysbytai.

## Nod 4. Ymateb yn gyflym mewn argyfwng iechyd



Dylid rhoi'r ymateb cyflymaf a gorau i bobl sydd ei angen.

### Rhai enghreifftiau o'r hyn y gellir ei wneud i gyflawni'r nod hwn



Bydd pobl sy'n mynd drwy argyfwng iechyd meddwl yn cael y cymorth maen nhw ei angen.



Bydd staff sy'n ymwneud â chefnogi pobl â phryderon iechyd meddwl yn gweithio gyda'i gilydd yn fwy.



Mae pobl sy'n mynd drwy argyfwng iechyd meddwl yn cael mwy o wybodaeth am gymorth yn y gymuned.



Mae pobl yn cael y cymorth cyflymaf a gorau ar gyfer eu pryder iechyd brys neu argyfwng.



Ni ddylai pobl orfod aros mewn ambiwlans i fynd i'r ysbyty am fwy nag 1 awr.



Bydd pobl yn cael eu gweld yn gyflymach mewn Adrannau Achosion Brys (a elwir weithiau'n A&E).



Bydd gan staff ambiwlans fwy o sgiliau i gefnogi cleifion ac aelodau o'r teulu. Ac yn gallu rhoi meddyginiaeth.



Bydd pobl yn cael cymorth cyflymach ar ôl gadael Gofal Argyfwng. Er enghraifft, i gael y gofal maen nhw ei angen neu i fynd adref.

## Sut bydd y pethau hyn yn helpu?



Bydd pobl yn cael y gofal gorau, cyn gynted â phosibl, yn y lle iawn ar gyfer eu hanghenion.



## Nod 5. Mae pobl yn cael y gofal gorau yn yr ysbyty a phan fyddant yn gadael



Dim ond pan fydd angen iddyn nhw fod yn yr ysbyty y dylai pobl fod yn yr ysbyty. Ac am yr amser mae angen iddyn nhw fod.

### Rhai enghreifftiau o'r hyn y gellir ei wneud i gyflawni'r nod hwn



Dylai pobl sydd angen aros yn yr ysbyty gael safonau gofal uchel.



Dylai pobl sy'n mynd i'r ysbyty fel argyfwng gael eu harchwilio gan feddyg ymgynghorol cyn gynted â phosibl. Rhaid iddo fod o fewn 14 awr.





Dylai fod gan yr ysbyty restr o'r meddyginiaethau mae eu claf yn eu cymryd o fewn 24 awr.

Dylai cleifion gael eu cynnwys yn llawn yn yr hyn sy'n digwydd gyda'u gofal. Gall cleifion ofyn y pedwar cwestiwn canlynol:



1. Beth sy'n bod arnaf fi?
2. Beth sy'n mynd i ddigwydd i mi heddiw?
3. Pryd ydw i'n mynd adref?
4. Beth sydd ei angen i fy nghael i adref?



Dylid diweddarau cleifion bob dydd.



Dylai cleifion adael yr ysbyty a chael triniaeth yn y gymuned ac yn agos i'w cartrefi cyn gynted ag y byddant yn iach.



Dylid cefnogi cleifion i fod mor annibynnol ag y gallant fod.

## Sut bydd y pethau hyn yn helpu?



Weithiau gall pobl golli eu hannibyniaeth os ydyn nhw'n treulio gormod o amser yn yr ysbyty.



Gall gwneud yn siŵr bod pobl ond yn aros yn yr ysbyty am yr amser sydd ei angen arnynt eu helpu i aros yn annibynnol.



## Nod 6. Mynd gartref pan fo'n bosibl



Dylid cefnogi pobl i fynd adref o'r ysbyty. Neu i gael y gofal ychwanegol maen nhw ei angen y tu allan i'r ysbyty.



Pan fydd pobl yn gadael yr ysbyty, mae hyn hefyd yn cael ei alw yn **rhyddhau**.



Dylid cynnwys pobl yn y cynllun ar gyfer sut a phryd y byddant yn gadael yr ysbyty a bydd hyn yn cael ei alw yn **Gynllun Adfer Personol**. Dylai'r cynllun hwn helpu pobl i gadw'n iach a'u hatal rhag gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty.




Ni ddylai pobl fod yn yr ysbyty yn hirach nag mae angen iddyn nhw fod.



Rhaid i staff iechyd a gofal weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl yn cael y gofal maen nhw ei angen pan fyddant yn gadael yr ysbyty.



Rhaid cefnogi pobl i ddeall mwy am y gofal a'r driniaeth sydd maen nhw eu hangen.



Rhaid i bobl sy'n aros ar wardiau iechyd meddwl neu wardiau anabledd dysgu fod â chynllun ar waith ar gyfer sut y byddan nhw'n gadael.

## **Sut bydd y pethau hyn yn helpu?**



Bydd pobl yn cael y gofal gorau fel y gallant wella.



Bydd pobl yn fwy annibynnol.



Bydd pobl yn cael y gofal a'r cymorth maen nhw wir eu hangen.

# Mwy o wybodaeth



Os hoffech wybod mwy am y **6 Nod ar gyfer Gofal Brys** ac Argyfwng e-bostiwch [SixGoals.UrgentAndEmergencyCare@llyw.cymru](mailto:SixGoals.UrgentAndEmergencyCare@llyw.cymru)